

RHAGLEN YSGOLION 'ARWEINIOL' CRACIO'R COD GWE - CODIO DRONAU

Crynodeb

Llogi dronau rhaglenadwy er mwyn gwella sgiliau codio eich dysgwyr ac ennyn eu diddordeb mewn dull hwyliog.



Amcanion

I'r ysgol/dysgwyr: Yn ogystal â dysgu am egwyddorion rhaglennu, bydd disgyblion yn dysgu am un o'r technolegau mwyaf diddorol ddaeth i'r amlwg yn y blynyddoedd diwethaf - hedfan dronau.

I GWE a'r rhaglen 'Cracio'r Cod' ehangach: Cynyddu gweithgarwch mewn ysgolion ac ennyn diddordeb dysgwyr ym maes meddwl yn gyfrifiadurol, codio, cyfrifiadureg a phynciau STEM.

Yr adnoddau sydd ar gael

Set o 6 drôn a'r offer ategol cysylltiedig, a mynediad i adnoddau cwricwlwm ar-lein drwy 'Tynker'. Llogir yr adnoddau am hanner tymor.

Disgwyliadau:

Wrth wneud cais am yr adnoddau, rhaid i ysgolion sicrhau eu bod wedi cynllunio'n briodol ar gyfer gwneud defnydd llawn ohonynt, a dilyn y rhaglen sydd ar gael ar-lein drwy www.tynker.com. Bydd cynrychiolwyr ysgolion yn mynychu hyfforddiant rhagarweiniol er mwyn ymgyswrtio â'r dronau, a byddant yn eu defnyddio am gyfnod o hanner tymor. Bydd ysgolion yn arfarnu defnyddio'r adnoddau mewn astudiaeth achos. Efallai y bydd gofyn i gynrychiolwyr ysgolion sy'n cymryd rhan rannu eu profiadau, neu hyfforddi cyd-weithwyr o ysgolion eraill i ddefnyddio'r dronau. Bydd ysgolion yn dilyn canllawiau iechyd a diogelwch tynn wrth ddefnyddio'r dronau, fel y cyfarwyddyd yn yr hyfforddiant rhagarweiniol. Er mwyn gallu pasio'r adnoddau ymlaen i ysgol arall, bydd disgwyl i ysgolion adnewyddu unrhyw eitemau a ddifrodor neu sy'n mynd ar goll.

Gofynion

Caledwedd: Bydd ar ysgolion sy'n cymryd rhan angen set o 6 tabled i'w defnyddio gyda'r dronau. Bydd angen i'r rhain fod yn iPads sy'n rhedeg iOS 8.0 neu ddiweddarach, neu dabledi Android sy'n rhedeg fersiwn Android 4.0 neu ddiweddarach. Ar gyfer y cyrsiau ar-lein a'r cynlluniau gwersi mae angen iPad, cyfrifiadur desgwrdd, gliniadur, Chromebook neu Netbook gyda chysylltiad We a Chrome (29+), Firefox (30+), Safari (7+) neu borwr Internet Explorer (10+). Ni fydd angen lawrlwytho.

Cyfleusterau: Dim ond y tu mewn y gellir hedfan y dronau. Bydd angen gofod digon mawr i allu hedfan y dronau yn ddiogel. Argymhellir hefyd defnyddio rhwydi diogelwch, fel y disgrifir yn yr erthygl isod.

Dyddiadau

Cynhelir yr hyfforddiant rhagarweiniol ar 7 Chwefror 2019, lleoliad i'w gadarnhau.

Gwybodaeth bellach

Fe'ch hanogir i daro golwg ar y cwrs Tynker Drones 101 Programming isod:

<https://www.tynker.com/school/coding-curriculum/show?id=63-drone-101>

Gweler rhagor o fanylion am y dronau yma:

<https://www.parrot.com/uk/drones/parrot-mambo-fly#parrot-mambo-fly-details>

Mae canllawiau defnyddiol ar ddefnyddio dronau yn ddiogel mewn addysg ar dudalen 4 a 5 y cyhoeddiad hwn gan CLEAPSS 'Futureminds':

<http://dt.cleapss.org.uk/Resource-File/Futureminds-08-summer-2018.pdf>

Os oes gennych gwestiynau am y rhaglen, cysylltwch ag Alex Clewett, cydlynnydd Cracio'r Cod, GWE - alex.clewett@hwbcmru.net

I gofrestru diddordeb yn y rhaglen, cwblhewch y ffurflen hon: <https://goo.gl/forms/ZBoh0xNUxJLOsjV2>